

Polisi Diogelu Plant ac Oedolion Bregus

Dyddiad Cyhoeddi:	Mehefin 2020
Dyddiad Adolygu:	Mehefin 2021
Awdur:	Anne Pitman Rheolwr Diogelwch a Lles Dysgwyr (Protocol Myfyrwyr) Sarah King Cyfarwyddwr AD (Protocol Staff)
Lleoliad y Polisi:	BIZ-Sharepoint/Intranet/Policies & Procedures/Learner Services & Support
Cymeradwywyd y Polisi gan:	Tîm Rheoli'r Coleg – 24.09.2020 Pwyllgor Cymorth i Ddysgwyr – 20.10.2020 Bwrdd Corfforaethol – 12.11.2020 (Yn amodol ar gymeradwyaeth)

Os hoffech chi, neu rywun rydych yn ei adnabod, gael y ddogfen hon mewn print bras, sain, yn electronig neu yn Saesneg, cysylltwch â:

Rheolwr Diogelwch a Lles Dysgwyr: Anne Pitman
E-bost: anne.pitman@gowercollegeswansea.ac.uk

MYNEGAI

Adran	Teitl
1.	Cyd-destun
2.	Cwmpas
3.	Datganiad o Ddiben
4.	Corff y Polisi
4.1	Staff Dynodedig gyda Chyfrifoldeb dros Ddiogelu
4.2	Diffiniadau o Gam-drin ac Esgeuluso Plentyn neu Oedolyn Bregus
4.2.1	Cam-drin Corfforol
4.2.2	Cam-drin Emosiynol
4.2.3	Cam-drin Rhywiol
4.2.4	Esgeuluso
4.2.5	Cam-drin Seiber
4.2.6	Cam-fanteisio'n Rhywiol ar Blant (CSE)
4.2.7	Cam-drin Domestig
4.2.8	Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod (FGM)
4.2.9	Meddiant Ysbrydol
4.2.10	ATAL
4.2.11	Hunanladdiad
4.2.12	Priodas dan Orfod
4.2.13	Delweddau Rhywiol a Gynhyrchir gan Bobl Ifanc (Secstio)
4.2.14	Llinellau Sirol
4.2.15	Uwchsbecian
4.2.16	Ymddydiag Rhwyiol Niweidiol
4.2.17	Camdrin disgybl ar ddisgybl
4.2.18	Cam-drin Ariannol/Materol
4.3	Ymateb i Honiad, Canllawiau i Staff a Myfyrwyr
4.4	Adrodd am Honiad o Fyfyriwr yn Cam-drin Myfyriwr Arall
4.5	Adrodd am Honiadau o Gam-drin yn erbyn Aelodau o Staff ac Ymdrin â'r Honiadau hynny
5.	Atodiad 1 – ffurflen CP1 Atodiad 2 – Canllaw i Staff ar Ymdrin â Honiad a wneir gan fyfyriwr

1. **Cyd-destun**

Mae dyletswydd statudol a moesegol ar Goleg Gŵyr Abertawe i hyrwyddo a diogelu lles pob myfyriwr, prentis a chleient sydd dan 18 oed a'n hoedolion bregus.

2. **Ystod**

Mae'r Polisi yn berthnasol i bob myfyriwr, prentis a chleient sydd dan 18 mlwydd oed, yr holl oedolion bregus, yr holl fyfyrwyr sydd dros 18 mlwydd oed os oes personau dan oed neu oedolion bregus yn y cartref lle honnir bod cam-drin a'r holl staff yn ddieithriad, gan gynnwys partneriaid darparu allanol.

Mae'r polisi yn sicrhau bod yr holl honiadau yn cael eu cyfeirio at un o'r Swyddogion Diogelu Dynodedig, ac y gweithredir arnynt yn briodol.

3. **Datganiad o Ddiben**

Diben y Polisi, y Gweithdrefnau a'r Hyfforddiant Diogelu Plant ac Oedolion Bregus yw sicrhau bod y coleg yn darparu amgylchedd diogel i blant, pobl ifanc ac oedolion bregus ddysgu o'i fewn. Mae'r Coleg wedi ymrwymo i:

- a. Godi ymwybyddiaeth er mwyn caniatáu i staff adnabod plant neu oedolion bregus sydd wrth risg o niwed sylweddol
- b. Codi ymwybyddiaeth o gam-drin domestig a pherthnasau gyda phobl ifanc
- c. Codi ymwybyddiaeth pobl ifanc ac oedolion bregus o bwysigrwydd bod yn ddiogel ar-lein
- d. Codi ymwybyddiaeth am yr effaith y gall cyffuriau ac alcohol ei chael a'r gefnogaeth sydd ar gael i bobl ifanc
- e. Codi ymwybyddiaeth ymhlith staff a myfyrwyr ynghylch effaith bwlio
- f. Codi ymwybyddiaeth am y Strategaeth ATAL
- g. Darparu gweithdrefnau clir ar gyfer adrodd am bryderon
- h. Sefydlu gweithdrefnau ar gyfer adrodd am honiadau o gam-drin yn erbyn aelodau o staff, ac ymdrin â'r honiadau hynny
- i. Recriwtio staff yn ddiogel

4. Corff y Polisi

Drwy gydol y Polisi a'r Gweithdrefnau Diogelu Plant ac Oedolion Bregus, gwneir cyfeiriadau at 'plant a phobl ifanc'; defnyddir y term hwn i olygu 'y rhai sydd dan 18 mlwydd oed'. Mae'r coleg yn cydnabod bod rhai oedolion yn agored i gam-drin hefyd, felly bydd y polisi hwn hefyd yn cyfeirio at Oedolion Bregus. Yn ogystal, mae'r polisi diogelu yn codi ymwybyddiaeth ynghylch ymddygiad pobl ifanc. Mae'r Coleg yn ymrwymedig i sicrhau ei fod:

- a. Yn darparu amgylchedd diogel i blant, pobl ifanc ac oedolion bregus i ddysgu ynddo.
- b. Yn adnabod plant, pobl ifanc ac oedolion bregus sy'n dioddef, neu'n debygol o ddioddef niwed sylweddol, a chymryd camau priodol.
- c. Yn sefydlu gweithdrefnau clir i adrodd am honiadau o gam-drin ac ymdrin â hwy.
- d. Yn sefydlu amserlen hyfforddi glir i sicrhau bod yr holl staff wedi'u hyfforddi ac yn gyfarwydd â'r Polisi a'r Gweithdrefnau Diogelu Plant ac Oedolion Bregus.
- e. Yn darparu cefnogaeth briodol i fyfyrwyr sydd wedi cael eu cam-drin. Er enghraifft, cynnig gwasanaethau cwnselydd mewnol/Swyddog Cefnogi Myfyrwyr iddynt neu atgyfeiriad at Ganolfan Cyfeirio ar gyfer Ymosodiadau Rhyw (SARC).
- f. Yn darparu cyfle i bobl ifanc ac oedolion bregus fynychu sesiynau tiwtorial ar gyffuriau, alcohol, ATAL, troseddu â chyllyll, Llinellau Sirol, cam-drin domestig a pherthnasau.
- g. Yn sefydlu recriwtio staff yn ddiogel wedi'i adeiladu o amgylch y gwiriadau DBS, derbyn a gwirio tystlythyrau a gwiriadau hunaniaeth.
- h. Yn sicrhau bod yr holl staff sy'n gweithio i Goleg Gŵyr Abertawe yn ymwybodol yn ystod y prif gyfnod ymsefydlu, o'r Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003 a'i bod hi'n drosedd i rywun sydd dros 18 oed i gael perthynas gyda phlentyn dan 18 oed os yw'r person hwnnw mewn sefyllfa o ymddiriedaeth yng nghyswllt y plentyn hwnnw, hyd yn oed os yw'r berthynas yn un gydsyniol. Mae hyn yn berthnasol os yw'r plentyn mewn addysg lawn-amser a bod y person yn gweithio yn yr un sefydliad â'r plentyn, hyd yn oed os nad yw ef/hi yn dysgu'r plentyn.

Mewn cyfarfodydd cychwynnol â Choleg Gŵyr Abertawe, fe fydd Parteriaid Darparu Newydd yn cael gwybod am Weithdrefnau Diogelu'r Coleg a phwy i gysylltu â ynghylch materion perthnasol.

Wrth ddatblygu'r Polisi Diogelu Plant ac Oedolion Bregus, mae'r Coleg wedi ystyried canllawiau sydd wedi'u cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru ac Estyn.

Bydd y Coleg yn cyfeirio pryderon bod plentyn, person ifanc neu oedolyn bregus wrth risg o niwed sylweddol at y Gwasanaethau Cymdeithasol a/neu'r Heddlu. Cynhwysa hyn bryderon y gall bartneriaid darparu allanol godi gyda'r Coleg.

4.1 Staff Dynodedig gyda Chyfrifoldeb dros Ddiogelu

Mae'r corff llywodraethol wedi penodi:

- Carol Green
- Chantal Patel
- Ray Singh

Fel llywodraethwyr â chyfrifoldeb arbennig am faterion diogelu plant ac oedolion bregus, byddant yn ymgymryd â hyfforddiant priodol gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol ac asiantaethau allanol eraill fel sy'n briodol. Bydd yr holl faterion diogelu plant ac oedolion bregus yn cael eu hadrodd i'r llywodraethwyr a benodir bob tymor.

Bydd gan aelod o Dîm Rheoli'r Coleg gyfrifoldeb arweiniol dros ddiogelu plant ac oedolion bregus. Cânt eu cefnogi gan Swyddogion Diogelu dynodedig.

Yr aelodau staff dynodedig yw:

1. **Anne Pitman** (Swyddog Arweiniol Diogelu Plant ac Oedolion Bregus) – Ffôn 01792 284223/01792 890700 estyniad: 4128
2. **Vicky Wannell** (Swyddog Dynodedig Diogelu Plant ac Oedolion Bregus) – Ffôn 01792 284227
3. **Ceri Lowe** (Swyddog Dynodedig Diogelu Plant ac Oedolion Bregus) – Ffôn 01792 284237
4. **Chris Williams** (Swyddog Dynodedig Diogelu Plant ac Oedolion Bregus) – Ffôn 3212
5. **Ian Billington** (Swyddog Dynodedig Diogelu Plant ac Oedolion Bregus) – Ffôn 01792 890708
6. **Tasmyn Oates** (Swyddog Dynodedig Diogelu Plant ac Oedolion Bregus a Swyddog Atal) – Ffôn 01792 284071
7. **Adele Bubear** (Swyddog Dynodedig Diogelu Plant ac Oedolion DSW a Swyddog Atal) – Ffôn 01792 284385

Bydd gofyn i'r holl Swyddogion Diogelu Dynodedig ddiweddarau eu hyfforddiant yn flynyddol.

Bydd y Bwrdd Corfforaethol, y Pennaeth a'r holl staff sy'n gweithio gyda phlant ac oedolion bregus yn derbyn hyfforddiant er mwyn ymglyfarwyddo â materion a chyfrifoldebau diogelu plant ac oedolion bregus yn unol â pholisi a gweithdrefnau'r Coleg. Caiff y Bwrdd Corfforaethol, y Pennaeth a'r holl staff eu diweddarau o leiaf bob 3 blynedd.

Bydd y Corff Llywodraethol a'r Uwch Grŵp Rheoli yn derbyn adroddiad ar faterion Diogelu a'r dyletswyddau sydd wedi'u gweithredu, yn flynyddol.

Bydd yr aelodau staff dynodedig yn cadw cofnod o'r holl honiadau/pryderon a wnaed p'un a ydynt yn dod gan fyfyrwyr neu staff, neu ffynonellau eraill. Caiff yr holl drafodaethau yn ymwneud â'r honiadau/y pryderon hyn gydag asiantau allanol eu cofnodi.

4.2 Diffiniadau o Gam-drin ac Esgeuluso Plentyn ac Oedolyn Bregus

Gall rhywun gam-drin neu esgeuluso plentyn neu oedolyn bregus drwy beri niwed, neu drwy beidio â gweithredu i atal niwed. Gall plant neu oedolion bregus gael eu cam-drin o fewn teulu neu mewn lleoliad sefydliadol, gan bobl y maent yn eu hadnabod neu, yn llai aml, gan ddieithryn. Gall plentyn neu berson ifanc hyd at 18 mlwydd oed ddioddef cam-drin neu esgeuluso a byddai gofyn iddynt gael eu gwarchod drwy Gynllun Amddiffyn Plant rhyngasiantaethol. Gallai oedolyn bregus ddioddef cam-drin neu esgeuluso a byddai gofyn iddynt gael eu gwarchod drwy Gynllun Oedolyn Bregus rhyngasiantaethol.

Diffiniad o Oedolyn Bregus

Diffiniad Bwrdd Diogelu Bae'r Gorllewin o oedolyn bregus:

Mae oedolyn bregus yn berson dros 18 oed sydd yn, neu a allai fod, angen gwasanaethau gofal cymunedol oherwydd ei anabledd meddyliol neu arall, oed neu salwch ac sydd yn, neu a allai fod, methu gofal am ei hun, neu'n methu diogelu ei hun yn erbyn niwed sylweddol neu ecsploetiaeth ddifrifol."

(Comisiwn y Gyfraith - Who Decides?: Making decisions on behalf of mentally incapacitated adults 1997)

Ffactorau Oedolyn Bregus:

- Yn hen ac yn fregus yn sgil iechyd gwael, anabledd corfforol neu amhariad gwybyddol
- Ag anabledd dysgu
- Ag anabledd corfforol a / neu amhariad synhwyrdd
- Ag anghenion iechyd meddwl yn cynnwys dementia neu amhariad personoliaeth
- Â salwch / cyflwr hirdymor
- Yn camddefnyddio sylweddau neu alcohol
- Yn ofalwr, lle bo'r person yn bodloni'r diffiniad
- Ddim yn medru arddangos y capasiti i wneud penderfyniad ac angen gofal a chefnogaeth.

Bydd bregusrwydd person yn dibynnu ar ei (h)amgylchiadau. Mae nifer o ffactorau a allai gynyddu tebygolrwydd bod cam-drin yn digwydd.

Mae'r Coleg yn cydnabod yr isod fel diffiniadau o gam-drin¹:

4.2.1 Cam-drin Corfforol

Gall cam-drin corfforol gynnwys taro, ysgwyd, taflu, gwenwyno, llosgi neu sgaldanu, boddi, mygu, neu achosi niwed corfforol fel arall i blentyn neu oedolyn bregus. Hefyd, gellir achosi niwed corfforol pan fo rhiant neu ofalwr yn ffugio symptomau, neu'n achosi'n fwriadol, iechyd gwael i blentyn y maen nhw'n edrych ar ei ôl. Gellir disgrifio'r sefyllfa hon fel salwch ffug neu sydd wedi'i gymell gan ofalwr.

4.2.2 Cam-drin Emosiynol

Cam-drin emosiynol yw triniaeth emosiynol wael barhaus o blentyn neu oedolyn bregus er mwyn achosi effeithiau andwyol difrifol a pharhaus ar ddatblygiad emosiynol y plentyn. Gall olygu cyfleu i blentyn ei fod yn ddiwerth neu fod neb yn ei garu, yn annigonol neu'n cael ei werthfawrogi oherwydd ei fod yn bodloni anghenion person arall yn unig. Gallai gynnwys disgwyliadau amhriodol o ran oed neu ddatblygiad yn cael eu rhoi ar blant. Gall olygu achosi i blant deimlo'n ofnus neu mewn perygl yn aml, er enghraifft, drwy weld cam-drin domestig yn y cartref neu gael eu bwlio, neu, ecsbloetio neu lygru plant. Mae rhyw lefel o gam-drin emosiynol ynghlwm ym mhob mathau o driniaeth wael o blant, ond gall ddigwydd ar ei ben ei hun.

4.2.3 Cam-drin Rhywiol

Mae Cam-drin rhywiol yn golygu gorfodi neu hudo plentyn neu berson ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol, p'un a yw'r plentyn yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd ai peidio. Gall y gweithgareddau olygu cyswllt corfforol, yn cynnwys gweithredoedd treiddiol neu anhreiddiol. Gallent gynnwys gweithgareddau digyswllt, megis cynnwys plant wrth wylio, neu wrth gynhyrchu, deunyddiau pornograffig neu mewn gwyllo gweithgareddau rhywiol, neu annog plant i ymddwyn mewn ffyrdd sy'n amhriodol yn rhywiol.

Mae cam-drin rhywiol tuag at oedolion bregus yn cynnwys trais ac ymosodiad rhywiol neu weithredoedd rhywiol nad yw neu na allai'r oedolyn bregus gydsynio iddynt a/neu wedi cael eu pwysu i gydsynio.

4.2.4 Esgeuluso

Esgeuluso yw methiant parhaus i fodloni anghenion corfforol a/neu seicolegol sylfaenol plentyn neu oedolyn bregus, sy'n debygol o arwain at amhariad difrifol yn iechyd neu ddatblygiad y plentyn neu'r oedolyn bregus. Gall gynnwys rhiant neu ofalwr yn methu darparu bwyd, lloches a dillad digonol, methu amddiffyn plentyn neu oedolyn bregus rhag niwed corfforol neu berygl, neu fethu sicrhau mynediad at ofal neu driniaeth feddygol briodol. Gall hefyd gynnwys esgeuluso neu ddiffyg ymateb i anghenion emosiynol sylfaenol plentyn neu oedolyn bregus.

Diffiniad o esgeuluso plentyn wedi'i gymryd o Gadw Dysgwyr yn Ddiogel 2015

4.2.4.1 Mae esgeuluso plentyn yn disgyn i **bedwar prif categori: esgeuluso corfforol, addysgiadol, emosiynol a meddygol.**

Dangosodd astudiaeth mynychder a wnaed gan yr NSPCC yn y DU mai esgeuluso oedd y math mwyaf mynych o gam-drin yn y teulu ar gyfer pob grŵp oedran ac esgeuluso plant yw'r prif reswm pam mae plant yng Nghymru wedi bod yn destun cynllun amddiffyn plant.

Mae canlyniadau posib yn cynnwys lluo o broblemau iechyd ac iechyd meddwl gan gynnwys cynnwys oedi datblygiadol, anawsterau emosiynol ac ymddygiadol, IQ is a pherfformiad gwael yn yr ysgol ac anhawster gyda chyfeillgarwch a chynnal perthnasau.

4.2.4.2 **Esgeuluso corfforol** yw methiant i ddarparu ar gyfer anghenion corfforol sylfaenol plentyn. Fel arfer, mae'n cynnwys y rhiant neu'r gofalwr yn peidio â darparu bwyd o'r ansawdd a'r maint digonol, dillad o'r math a'r maint cywir neu le diogel i fyw, chwarae a chysgu. Hefyd, gall gynnwys gadael plentyn a goruchwyliaeth annigonol neu amhriodol, sy'n arwain at doriadau, cleisiau, llosgadau ac anafiadau eraill.

4.2.4.3 Mae **Esgeuluso addysgiadol** yn cynnwys methiant i sicrhau bod plentyn yn derbyn addysg ddigonol ac addas a methu cefnogi plentyn wrth iddo ddysgu.

4.2.4.4 Gall **Esgeuluso emosiynol** neu esgeuluso seicolegol gynnwys: anwybyddu presenoldeb neu anghenion plentyn yn barhaus, methu symbylu, annog na gwarchod plentyn, gwrthod plentyn a pheidio â dangos anwylded mewn modd amserol neu gyson gan ynysu plentyn, lle nad oes gan y plentyn gyswllt cymdeithasol arferol gyda phlant ac oedolion eraill.

4.2.4.5 **Esgeuluso meddygol** yw'r methiant i ddarparu gofal iechyd priodol i blentyn. Mae'n bosib nad yw rhiant yn cydnabod pan mae plentyn angen sylw meddygol, gallent wrthod gofal meddygol i blentyn neu beidio â chychwyn neu roi'r driniaeth a argymhellir yn unol â chyfarwyddiadau gweithiwr gofal iechyd proffesiynol. Mae hyn hefyd yn cynnwys esgeuluso deintyddol, lle mae gan blentyn ddannedd sy'n pydru'n ddifrifol ac sydd heb eu trin.

4.2.5 Cam-drin Seiber²

Gall Cam-drin seiber fod ar 2 ffurf:

1. Cam-drin Seiber Rhywiol

Mae hyn fel arfer yn golygu paratoi person ifanc drwy sgwrsio mewn ystafelloedd sgwrsio ar-lein.

Mae troseddwr ar y we yn dylanwadu ar bobl ifanc er mwyn iddynt gymryd rhan mewn perthnasau rhywiol troseddol drwy apelio at ddymuniad pobl ifanc i gael eu gwerthfawrogi, eu deall, cymryd risgiau a dod i wybod am ryw.

Mae bron pob un dioddefwr yn mynd yn wirfoddol i gwrdd a chael rhyw gyda throseddwr ar y We, ond serch hynny, mae'r rhain yn droseddau rhyw sy'n cymryd mantais o bobl ifanc bregus a dibrofiad.

Mae troseddwr ar y we yn targedu pobl ifanc sy'n barod i siarad ar-lein am ryw. David Finkelhor et al (2008)

Mae'r holl ddelweddau o blant mewn cyflwr rhywiol digidol ar y we a thechnolegau ffôn symudol yn cynrychioli digwyddiad gwirioneddol o gam-drin plant.

2. Bwlio

Defnyddio'r we a thechnoleg ffonau symudol i fwlio rhywun ar-lein neu ddefnyddio eu ffôn symudol i ffilmio athrawon er dibenion bwlio.

Byddai'r sawl sy'n bwlio yn destun Gweithdrefnau Disgyblu Coleg Gŵyr Abertawe.

4.2.6 Cam-fanteisio'n Rhywiol ar Blant

Golyga cam-fanteisio'n rhywiol ar blant orfodi neu ddylanwadu ar blant a phobl ifanc er mwyn iddynt gymryd rhan mewn gweithgareddau rhyw.

Mae'n ffurf ar gam-drin rhywiol sy'n golygu cyfnewid rhyw ffurf ar daliad all gynnwys arian, ffonau symudol ac eitemau eraill, cyffuriau, alcohol, lle i aros, 'gwarchodaeth' neu hoffter.

Mae bregusrwydd y person ifanc a'r broses paratoi a ddefnyddir gan y troseddwr yn eu gwneud yn ddi-bŵer i adnabod natur ecsbloetiol perthnasau ac yn anabl i roi cydsyniad gwybodus.

4.2.7 Trais a Cham-drin Domestig: Diffiniad Newydd

Diffiniad traws-lywodraeth trais a cham-drin domestig yw:

² Wedi'i ddatblygu o Plymouth.gov.uk
Fersiwn: V7.0
Cymeradwywyd: 24/09/2020

Unrhyw ddigwyddiad neu batrwm o ddigwyddiadau o ymddygiad sy'n rheoli, yn orfodol, yn fygythiol, trais neu gamdriniaeth rhwng y rheini sy'n 16 oed neu drosodd sydd, neu sydd wedi bod yn bartneriaid agos neu aelodau teulu waeth beth fo'u rhyw neu rywioldeb. Gall y cam-drin gwmpasu, ond nid yw'n gyfyngedig i:

- seicolegol
- corfforol
- rhywiol
- ariannol
- emosiynol

Ymddygiad sy'n Rheoli

Mae ymddygiad sy'n rheoli yn ystod o weithredoedd sydd wedi'u cynllunio i wneud person yn israddol a/neu'n ddibynnol drwy eu hynysu o ffynonellau o gefnogaeth, ecsbloetio'u hadnoddau a'u capasiti i ennill yn bersonol, eu hamddifadu o'r modd sydd ei angen ar gyfer annibyniaeth, gwrthsefyll a dianc a rheoleiddio eu hymddygiad bob dydd.

Ymddygiad Cymhellol

Mae ymddygiad cymhellol yn weithred neu'n batrwm o weithredoedd o ymosod, bygwth, cywilyddio a brawychu neu gam-drin arall a ddefnyddir i niweidio, cosbi neu godi ofn ar eu dioddefwr.

Nid yw hwn yn ddiffiniad cyfreithiol.

Yn ddiweddar, mae'r diffiniad wedi'i ymestyn i ymdrin â dioddefwyr 16 ac 17 mlwydd oed a chynnwys ymddygiad sy'n rheoli ac ymddygiad cymhellol.

Cynllun Datgelu Trais Domestig – Cyfraith Clare

Mae'r Cynllun Datgelu Trais Domestig yn rhoi i aelodau'r cyhoedd 'hawl i ofyn' i'r Heddlu os oes ganddynt bryder y gall eu partner fod yn risg iddyn nhw neu os oes ganddynt bryder y gall partner aelod o'u teulu fod yn risg i'r unigolyn hwnnw.

Bydd Cyfraith Clare yn rhoi peth cymorth i'r bobl hynny sy'n meddwl fod ganddynt bartner a allai fod yn ymddwyn mewn modd sy'n awgrymu eu bod yn rhywun sy'n dreisgar. Gall yr unigolyn hwnnw fynd at yr heddlu gan wybod fod ganddynt yr hawl i ofyn am wybodaeth am eu partner. Bydd yr heddlu'n ystyried yn ofalus pa wybodaeth y byddant yn ei rhoi i'r unigolyn, a'r gefnogaeth sydd ei hangen arnynt.

Mae'r gyfraith yn galluogi i rywun wybod a oes gan eu partner hanes o drais a medru gwneud penderfyniad ynghylch p'un a ydynt am aros gyda nhw ai peidio.

Trais ar sail Cenedl/Rhyw

Golyga trais ar sail cenedl/rhyw:

- a. trais, bygythiad o drais neu aflonyddu sy'n codi'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o werthoedd, credoau neu arferion sy'n ymwneud â chenedl/rhyw neu gyfeiriadaeth rywiol
- b. anffurfio organau cenhedlu benywod (FGM)
- c. gorfodi person (drwy rym corfforol neu orfodaeth yn sgil bygythiadau neu ddulliau seicolegol eraill) i gymryd rhan mewn seremoni priodas grefyddol neu sifil (p'un a yw'n rhwymol yn gyfreithiol ai peidio).

Cyswllt rhwng Cam-drin Domestig a Cham-drin Plant

Mae cyswllt cryf rhwng cam-drin domestig a cham-drin ac esgeuluso plant. Mae un o bob tri achos amddiffyn plant yn dangos hanes o drais domestig tuag at y fam. Mae pobl ifanc sydd mewn cartrefi treisgar dair i naw gwaith yn fwy tebygol o gael eu hanafu neu eu cam-drin, naill ai'n uniongyrchol neu wrth geisio amddiffyn eu rhiant. Mae un o bob pum achos cam-drin plant yr ymdriniwyd â hwy gan yr NSPCC yn ymwneud â cham-drin domestig. Yn nawdeg y cant o'r achosion hynny, mae pobl ifanc yn bresennol yn y cartref ac yn cael eu heffeithio tra bod y gam-drin yn digwydd; ac yn hanner yr achosion hynny, mae cam-drin tuag at y person ifanc hefyd.

4.2.8 Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod (FGM)

Diffiniad: Mae Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) yn diffinio FGM fel: pob gweithred (nid llawdriniaeth) sy'n ymwneud â chael gwared yn rhannol neu'n gyfan gwbl ag organau cenhedlu allanol benywod neu anafu organau cenhedlu benywaidd am resymau diwylliannol neu di-therapiwtig eraill (WHO, 1996).

Yn y DU, mae pob ffurf ar FGM yn anghyfreithlon dan **Ddeddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod 2003**. Mae'n drosedd (waeth beth fo'u cenedl a'u statws preswyl) i:

- ymgymryd â FGM yn y DU
- cynorthwyo i ymgymryd â FGM yn y DU
- cynorthwyo merch i ymgymryd â FGM arni hi ei hun yn y DU
- cynorthwyo o'r DU, person nad yw'n rhywun o'r DU i ymgymryd â FGM y tu allan i'r DU ar rywun o'r DU neu rywun sy'n byw'n barhaol yn y DU.

Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud hi'n drosedd, am y tro cyntaf, i rywun o'r DU neu rywun sy'n byw'n barhaol yn y DU i:

- ymgymryd â FGM dramor

- cynorthwyo i ymgymryd â FGM dramor gan rywun o'r DU neu rywun sy'n byw'n barhaol yn y DU – mae hyn yn cynnwys mynd â merch dramor i orfod cael FGM
- cynorthwyo o'r tu allan i'r DU i FGM gael ei wneud dramor gan rywun nad yw o'r DU ar ferch neu fenyw sy'n rhywun o'r DU neu'n rhywun sy'n byw'n barhaol yn y DU – mae hyn yn cynnwys mynd â merch dramor i orfod cael FGM
- cynorthwyo merch i ymgymryd â FGM arni hi ei hun y tu allan i'r DU, hyd yn oed mewn gwledydd lle mae'r arferiad yn gyfreithlon.

Dylai unrhyw wybodaeth neu bryder bod plentyn wrth risg uniongyrchol o FGM, neu wedi bod drwy FGM, arwain at atgyfeiriad amddiffyn plant ar unwaith.

4.2.9 Meddiant Ysbrydol

Diffinnir y term 'cred mewn meddiant ysbrydol' yma fel y cred bod grym drwg wedi mynd i mewn i blentyn ac yn ei r(h)eoli. Weithiau, defnyddir y term 'gwrach' ac fe'i diffinnir yma fel y cred y gall plentyn ddefnyddio grym drwg i niweidio eraill. Hefyd, mae ystod o dermau eraill sydd ynghlwm â cham-drin o'r fath. Mae hyn yn cynnwys:

- **"Kindoki" neu "ndoki"** – Honiadau o ddewiniaeth mewn rhai cymunedau Affricanaidd sy'n arwain at allfwrw ac ynysu'r rheini sy'n cael eu cyhuddo o arfer y grefft. Mae plant yn arbennig o agored i honiadau o'r fath.
- **"Djinn"** - Mewn chwedl Foslemaidd, ysbryd sy'n aml yn medru cymryd ffurf ddynol neu anifail a gweithredu dylanwad goruwchnaturiol dros bobl.
- **"Obeah"** – System o gred ymhlith cymunedau, yn bennaf India'r Gorllewin Prydeinig a'r Guianas, sy'n cael ei nodweddu gan ddefnydd o ddefod hud i gadw anffawd draw neu i achosi niwed.
- **"Voodoo"** - Crefydd sy'n cael ei arfer yn bennaf yng ngwledydd y Caribî, yn arbennig Haiti, wedi'i syncreteiddio o elfennau defod Gatholig ac animistiaeth a hud caethweision o Orllewin Affrica, lle mae Duw goruchaf yn rheoli pantheon mawr o ddwyfoldeb lleol a gwarcheidiol, cyndeidiau sydd wedi'u dwyfoli a seintiau, sy'n cyfathrebu gyda'r rhai sy'n credu mewn breuddwydion, llesmeiriau a meddiant defodol. Gelwir hefyd yn vodoun.
- **"Y Gelfyddyd Ddu"** - nod y Gelfyddyd Ddu yw niweidio'ch hun neu rywun arall naill ai ar bwrpas neu'n ddamweiniol. Mae rhai consuriwyr yn teimlo na fyddai'n gweithio i frifo rhywun arall, oni bai y byddant hwy, eu hunain, yn dioddef o ganlyniad;
- **Swynwyr plant** – Honiadau bod plant, drwy swyngyfaredd, yn gyfrifol am broblemau economaidd a chymdeithasol teuluoedd. Ym mhob un o'r achosion hyn, mae teuluoedd, gofalwyr a'r plant eu hunain yn grediniol bod grymoedd drwg ar waith. Gall teuluoedd a phlant gael eu poenydio'n fawr gan y drwg y credant sy'n eu bygwth, a gall cam-drin ddigwydd pan wneir ymgais i 'waredu' y plentyn. Diffinnir hynny yma fel ymgeisio i fwrw allan ysbryd drwg o blentyn.

4.2.10 Atal

Mae Atal/Prevent yn gynllun gan yr Heddlu, sydd â'r nod o:

- danseilio ideoleg eithafol a chefnogi lleisiau prif ffrwd
- ymyrryd â'r rheini sy'n hyrwyddo eithafiaeth dreisgar a chryfhau sefydliadau bregus
- adnabod a chefnogi unigolion sy'n agored i gael eu recriwtio gan eithafwyr treisgar
- cynyddu gwytnwch cymunedau i ymgysylltu ag eithafwyr treisgar a'u gwrthsefyll
- mynd i'r afael yn effeithiol â chwynion a
- datblygu cudd-wybodaeth
- gwella cyfathrebiadau strategol

Mae gofyn i staff ddilyn y gweithdrefnau diogelu pe byddent yn sylwi ar unrhyw ymddygiad a fyddai'n achos pryder ymhlith aelodau cymuned y Coleg neu'n clywed unrhyw farnau neu sylwadau eithafol.

Mae **Polisi Atal CGA** dynodedig, sy'n fwy cynhwysfawr yn nhermau'r broses i'w dilyn, a chewch hyd iddo yn BIZ/Intranet/Current Policies.

4.2.11 Hunan-laddiad

Ar gyfartaledd, mae 300 o bobl yn marw drwy hunanladdiad bob blwyddyn yng Nghymru. Mae'r ffigwr hwn yn isel o'i gymharu ag achosion marwolaeth eraill, ond mae **ymhlith yr uchaf gyda phobl ifanc, gan gyfrif am un o bob pum marwolaeth ymhlith dynion rhwng 15 a 24 oed a bron i un ym mhob deg marwolaeth ymhlith merched o'r un oedran**. Bob blwyddyn, mae bron i ddwbl nifer y bobl yng Nghymru yn marw drwy hunan-laddiad nag sy'n marw mewn damweiniau traffig o fewn pob grŵp oedran. Tra bod yr ystadegau'n hynod drawiadol ymhlith plant a phobl ifanc, mae hunan-laddiad yn effeithio ar bobl drwy gydol eu hoes. Felly, mae darparu ymyraethau effeithiol i blant a phobl ifanc ac i bobl ganol oed ac yn ddiweddarach yn eu bywyd yn hanfodol er mwyn ymateb yn gynhwysfawr. (Beth am siarad â fi? y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol i leihau hunan-laddiad a hunan-niweidio yng Nghymru).

4.2.12 Priodas dan Orfod

Y Gwahaniaeth rhwng Priodas drwy Drefniant a Phriodas dan Orfod

Mae'r traddodiad o briodasau drwy drefniant wedi gweithredu'n llwyddiannus o fewn nifer o gymunedau a nifer o wledydd ers amser maith. Rhaid nodi'r gwahaniaeth yn glir rhwng priodas dan orfod a phriodas drwy drefniant. Mewn **priodasau drwy drefniant** mae teuluoedd y ddwy ochr yn cymryd rhan arweiniol wrth drefnu'r briodas ond yr unigolion sydd â'r dewis p'un ai i dderbyn y trefniant ai peidio. Mewn **priodas dan orfod** nid yw o leiaf un ochr yn **cydsynio** i'r briodas ac mae peth elfen o orfodaeth ynghlwm.

Mae priodas dan orfod yn bennaf yn fater o drais yn erbyn merched. Mae'r rhan fwyaf o achosion yn cynnwys menywod ifanc a merched rhwng 13 a 30 oed, ond, mae tystiolaeth i awgrymu bod hyd at 15% o'r dioddefwyr yn wrywaidd.

Gall y troseddau gynnwys cipio, trais corfforol, ymddygiad bygythiol. Trais yw Cyfathrach Rywiol heb gydsynio.

Mae Priodas dan Orfod yn drosedd, dan Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Trosedd a Phlisma 2014, mae hyn yn cynnwys:

- mynd â rhywun dramor i'w gorfodi nhw i'w priodi (p'un a yw'r briodas dan orfod yn digwydd ai peidio)
- priodi rhywun nad oes ganddo/ganddi'r galluedd meddyliol i gydsynio i'r briodas (p'un a ydynt dan bwysau i wneud hynny ai peidio)
- torri Gorchymyn Gwarchod Priodas dan Orfod, bydd yr ateb sifil i gael Gorchymyn Gwarchod Priodas dan Orfod drwy'r llysoedd teulu yn parhau i fodoli law yn llaw â'r drosedd newydd, felly gall y dioddefwyr ddewis sut maent yn dymuno cael cymorth.

Sut i fwrw ymlaen os ydych yn amau bod myfyriwr yn cael ei orfodi i briodas yn erbyn ei ewyllys

Os ydych yn amau bod un o'ch myfyrwyr yn cael ei orfodi i briodas yn erbyn ei ewyllys, cysylltwch â Swyddog Diogelu Dynodedig, a fydd yn asesu p'un ai i gysylltu â'r Gwasanaethau Cymdeithasol neu fynd yn uniongyrchol i'r Uned Priodasau dan Orfod gyda'r Heddlu.

4.2.13 Delweddau Rhywiol a Gynhyrchir gan Bobl Ifanc (Secstio)

Diffinnir secstio fel **cynhyrchu a/neu rannu lluniau a fideos rhywiol o bobl ifanc sydd dan 18 oed a chanddynt**. Mae'n cynnwys delweddau noeth neu hanner noeth a/neu weithredoedd rhywiol. Cyfeirir ato hefyd fel 'delweddau rhywiol a gynhyrchir gan bobl ifanc'.

Nid yw 'Secstio' yn cynnwys rhannu lluniau a fideos rhywiol o bobl ifanc dan 18 oed gyda neu gan oedolion. Mae hyn yn ffurf ar gam-drin plant yn rhywiol a rhaid ei gyfeirio at yr heddlu.

4.2.14 Llinellau Sirol

Mae Llinellau Sirol yn fygythiad newydd i Ddiogelu, a daw'r diffiniad a ganlyn gan yr Asiantaeth Trosedd Cenedlaethol:

Diffinnir senario llinellau sirol nodweddiadol gan y cydrannau a ganlyn:

- a. Mae grŵp (nid o reidrwydd yn gysylltiedig fel giang) yn sefydlu rhwydwaith rhwng canolbwynt trefol a lleoliad yn y sir, lle cyflenwir cyffuriau (yn bennaf heroin a chrac cocên) iddo.
- b. Mae llinell ffôn symudol wedi'i brandio yn cael ei sefydlu yn y farchnad, y mae archebion yn cael eu gwneud iddi gan gwsmeriaid sydd wedi'u cyflwyno. Caiff y llinell ei rheoli gan drydydd parti fel arfer (ond nid o reidrwydd), sy'n bell o'r farchnad.
- c. Mae'r grŵp yn ecsbloetio pobl ifanc neu fregus, er mwyn storio a/neu gyflenwi cyffuriau, symud arian parod a sicrhau defnydd o dai (y cyfeirir ato'n gyffredin fel 'cuckooing').
- d. Mae'r grŵp neu'r unigolyn sydd wedi'u hecsbloetio ganddynt yn teithio'n rheolaidd rhwng y canolbwynt trefol a'r farchnad sirol, i adnewyddu'r stoc a darparu'r arian parod.
- e. Mae'r grŵp yn tueddu i ddefnyddio ymddygiad bygythiol, trais ac arfau, yn cynnwys cylllyll, crydyddion a gynnu.
- f. Gall cam-fanteisio'n rhywiol ar blant hefyd fod yn ffactor sylweddol

Canllaw'r Swyddfa Gartref ar Gam-fanteisio Troseddol ar blant ac oedolion bregus: Llinellau Sirol

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/626770/6_3505_HO_Child_exploitation_FINAL_web_2_.pdf

4.2.15 Uwchsbecian

Mae uwchsbecian bellach yn dramgwydd troseddol y gellid ei gosbi â charchar am gyfnod o hyd at ddwy flynedd. Defnyddir uwchsbecian fel term i ddisgrifio'r weithred o dynnu llun rhywiol ymwithiol i fyny sgert unigolyn heb ei ganiatâd.

Mae'r troseddau newydd yn berthnasol pan fydd:

- Unigolyn yn gweithredu offer neu'n tynnu llun o berson o dan ei ddillad heb ganiatâd
- Gan y troseddwr fwriad i nai ai gyflawni boddhad rhywiol neu achosi cywilydd, gofid neu ddychryn i'r dioddefwr.

4.2.16 Ymddygiad rhywiol Niweidiol (HSB)

Defnyddir 'Ymddygiad Rhywiol Niweidiol' i ddisgrifio unrhyw ymddygiad rhywiol amhriodol gan blant neu unigolyn ifanc. Gall yr ymddygiad fod yn niweidiol neu'n ymosodol (Hackett, 2014). Termau arall a ddefnyddir yw 'ymddygiad sydd wedi'i rywioli'.

4.2.17 Mae **Cam-drin disgybl ar ddisgybl** yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i:

- Cam-drin rhywiol
- Aflonyddu a thrais rhywiol
- Niwed emosiynol
- Bwlio ar-lein ac all-lein
- Cam-drin mewn perthynas ag unigolion sydd yn eu harddegau

Gall hefyd gynnwys meithrin perthynas amhriodol gyda phlant at ddibenion rhywiol a chamfanteisio troseddol. Mae'r Adran dros Addysg wedi cyhoeddi cyngor i ysgolion a cholegau ar beth i'w wneud os yw plentyn yn cael ei aflonyddu'n rhywiol neu'n destun trais rhywiol.

Ffurfiâu Ychwanegol ar Gam-drin sy'n Berthnasol i Oedolion Bregus:

4.2.18 Cam-drin Ariannol/Materol

Mae hyn yn cynnwys dwyn, twyll, pwysau ynghylch ewyllysiau, eiddo neu etifeddiaeth neu gamddefnyddio budd-daliadau.

4.3 Ymateb i Honiad – Canllawiau i Staff a Myfyrrwr

Os yw myfyriwr, prentis neu gleient yn datgan i aelod o staff bod cam-drin wedi digwydd, dylid gwrando arno/arni yn astud. Mae'r pwyntiau isod yn ganllaw ar sut i fwrw ymlaen gyda myfyriwr sy'n gwneud honiad.

Dylai'r aelod o staff sy'n derbyn yr honiad barhau'n ddigyffro.

Dylid gwrando'n ofalus ar y myfyriwr, prentis neu gleient ond ni ddylid ei gyfweld na gofyn iddo ailadrodd yr hanes. Unwaith y daw'n amlwg bod y myfyriwr yn gwneud honiad o gam-drin, mae hi'n bwysig y rhoddir gwybod i'r myfyriwr yn dyner na allwch gadw'r wybodaeth hon i chi'ch hunan, bod gennych ddyletswydd gyfreithiol i'w phasio ymlaen i'r Swyddog Amddiffyn Plant Dynodedig. **Ni allwch gynnig cadw pethau'n gyfrinachol i'r myfyriwr.**

Peidiwch â chyfweld yr unigolyn sydd wedi gwneud honiad, gallwch gwestiynu'r unigolyn heb bwysau i sicrhau eich bod yn deall yn llwyr beth mae'r myfyriwr yn ei ddweud wrthy'ch. Gwnewch yn siŵr bod y cwestiynau yn rhai syml ac nid yn eu harwain. Er enghraifft, os yw unigolyn yn dweud wrthy'ch ei fod wedi'i frifo, gofynnwch 'Sut ges di dy frifo?' ac nid 'Wnaeth rywun dy daro di?'. Dylech fod yn ofalus i sicrhau nad ydych yn gwneud tybiaethau am yr hyn y mae myfyriwr yn ei ddweud.

Cyn gynted â phosib, nodwch yr holl fanylion, yn cynnwys amseriad, lleoliad, pwy oedd yn bresennol, beth ddywedwyd ar y ffurflen CP1 (ar gael yng Ngwasanaethau Myfyrrwr). Gwnewch yn siŵr bod yr hyn a nodir yn cael ei nodi air am air i eiriau'r myfyriwr ei hun neu mor agos â phosib.

Rhaid rhoi'r ffurflen CP1 wedi'i chwblhau i Swyddog Diogelu Plant ac Oedolion Bregus. Ni ddylid cadw unrhyw gopïau papur neu electronig eraill.

Bydd y Swyddog Diogelu Plant ac Oedolion Bregus Dynodedig yn egluro'r camau y mae'n rhaid iddo eu cymryd, fel y gallwch roi gwybod i'r myfyriwr beth yw'r cam nesaf. Gall fod yn briodol i'r Swyddog Diogelu Dynodedig gyfarfod â'r myfyriwr, prentis neu'r cleient.

Os nad yw Swyddog Diogelu Dynodedig ar gael, dylech ofyn am gyngor gan y Gwasanaethau Cymdeithasol ar sut i symud ymlaen.

Y prif rif ar gyfer cyfeiriadau i'r **Gwasanaethau Cymdeithasol yw 01792 635700.**

Yn y sefyllfa hon, dylid cysylltu â'r Swyddog Diogelu Dynodedig a'i ddiweddarau am unrhyw gamau a gymerwyd/pryderon a godwyd cyn gynted â phosib.

Mae'n bosib y byddai ar rai myfyrwyr ag anawsterau a/neu anableddau dysgu angen cefnogaeth ychwanegol. Mae'n bosib y byddai angen i ofalwr neu athro enwebedig y myfyriwr fod yn bresennol i weithredu fel hwylusydd neu mewn rôl gefnogol.

Os yw'r myfyriwr ar raglen 14-16, bydd y Swyddog Diogelu Dynodedig yn cysylltu â Swyddog Diogelu Dynodedig yr Ysgol i drafod yr atgyfeiriad gyda nhw. Bydd y sgwrs gyda'r ysgol yn cael ei dogfennu ar ffurflen CP1 y Coleg.

Os yw'r myfyriwr, prentis neu'r cleient dros 18 oed, yn dioddef o ffurf ar gam-drin, ond nad yw'n cael ei ystyried yn oedolyn bregus, ond, fel coleg, rydym yn ymwybodol y gall fod brodyr neu chwiorydd eraill dan 18 yn yr amgylchedd, rhaid rhoi gwybod i Swyddog Diogelu Dynodedig, gan ddefnyddio'r ffurflen CP1.

Cynigir cefnogaeth gyda Chwnselydd Myfyrwyr/Swyddog Cefnogi Myfyrwyr i ddysgwyr, prentisiaid a chleientiaid sydd wedi gwneud datgeliad. Os oes cam-drin rhywiol/trais yn bresennol, dylid cynnig cyfeiriad at y Ganolfan Atgyfeirio ar gyfer Ymosodiadau Rhyw (SARC) fel mater o drefn.

Mewn achosion prin, fe rennir Hysbysiad Preifatrwydd Cyhoeddus â'r Coleg, a chofrestrir myfyriwr, prentis neu gleient nad yw'n meddu ar golfarn droseddol, ond yn cael ei ystyried yn risg i weithio gyda Phlant neu Bobl Ifanc Bregus ar gwrs Gofal Plant, Gofal a Iechyd Cymdeithasol neu unrhyw gwrs arall sy'n gofyn i'r unigolyn fod ar leoliad gyda Phlant neu Oedolion Bregus. Fe fydd y Coleg yn cefnogi'r myfyriwr drwy chwilio am gyrsiau addas eraill y gallai ef/hi fynychu, ac yn rhoi gwybod iddo/iddi am yr hysbysiad a dderbyniwyd a'r rhesymau dros ei dynnu yn ôl o'i gwrs presennol.

4.4 Adrodd am Honiadau o Fyfyriwr yn Cam-drin Myfyriwr Arall

Pe byddai honiad o gam-drin plentyn neu oedolyn bregus yn cael ei wneud yn erbyn myfyriwr, prentis neu gleient gan fyfyriwr arall, rhaid cysylltu â'r Swyddog Diogelu Dynodedig ar unwaith. Bydd y Swyddog Diogelu Dynodedig yn rhoi gwybod i'r Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn penderfynu a oes angen cysylltu â'r heddlu fel mater o drefn.

Gwneir penderfyniad ynghylch p'un ai i atal y myfyriwr, prentis neu gleient sydd wedi'i gyhuddo, hyd nes y ceir canlyniad unrhyw ymchwiliad gan y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Heddlu.

4.5 Adrodd am Honiadau o Gam-drin yn erbyn Aelodau o Staff ac Ymdrin â'r Honiadau hynny

4.5.1 Cyflwyniad

Ar achlysuron prin, canfuwyd bod staff sefydliadau addysg wedi bod yn gyfrifol am gam-drin plant. Yn sgil eu cyswllt cyson gyda phlant a phobl ifanc mewn amrywiol sefyllfaoedd, yn cynnwys y rôl gofalu ehangach, mae'n bosib y caiff staff honiadau o gam-drin wedi'u gwneud yn eu herbyn. Gall perthnasau staff gyda myfyrwyr arwain at honiadau yn cael eu gwneud yn eu herbyn nhw gan fyfyrwyr neu rieni. Mae'r Coleg yn cydnabod y gall honiad o gam-drin plant a wneir yn erbyn aelod o staff gael ei wneud am amrywiol resymau ac y gall ffeithiau'r honiad fod yn wir neu beidio. Felly, mae ar y Coleg angen polisiau a gweithdrefnau i reoli sefyllfaoedd lle ceir honiadau o gam-drin.

Mae'r gweithdrefnau hyn sy'n dilyn wedi'u creu mewn ymgynghoriad â staff, undebau a'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant (LSCB). Maent yn amlinellu'r camau i'w dilyn a'r ystyriaethau i'w gwneud am adrodd ac yna rheoli honiad o gam-drin yn erbyn aelod neu aelodau o staff.

Mae hi'n hanfodol fod y rheini sy'n ymdrin â honiad yn cadw meddwl agored a bod yr ymchwiliadau yn drylwyr ac yn digwydd heb oedi.

Mae'r Coleg yn cydnabod bod Deddf Plant 1989 yn nodi mai lles y plentyn yw'r brif ystyriaeth. Mae'n cydnabod hefyd y gall penderfyniadau brysiog heb y wybodaeth i gyd yng nghyswllt aelod o staff niweidio enw da, hyder a gyrfa unigolyn na ellir eu hadfer. Felly, bydd y rheini sy'n ymdrin â honiadau o'r fath o fewn y Coleg yn gwneud hynny yn sensitif a byddant yn gweithredu mewn modd gofalus a phwyllog.

4.5.2 Ystod

Mae'r gweithdrefnau hyn yn berthnasol i'r holl staff, p'un a ydynt yn staff dysgu, gweinyddol, rheoli neu gefnogol, ynghyd â gwirfoddolwyr. Defnyddir y gair "staff" i ddynodi'r holl grwpiau hyn.

4.5.3 Gweithdrefnau; Gwneud Honiad ynghylch Pryderon am Aelod Arall o Staff

Mae dwy ffordd i godi pryderon ynghylch ymddygiad aelod arall o staff. Gall staff naill ai adrodd am yr honiad yn uniongyrchol i'r Pennaeth neu gallant ddefnyddio'r Weithdrefn Chwythu'r Chwiban.

Os ydynt yn dewis defnyddio'r Weithdrefn Chwythu'r Chwiban, rhaid i'r aelod staff fod yn ymwybodol na ellir gwarantu eu bod yn parhau'n ddienw os caiff y mater ei drin gan yr Heddlu neu sefydliad allanol arall wedi hynny. Dylai'r sawl sy'n Datgelu gysylltu â Chlerc y Llywodraethwyr (Ffôn: 01792 414222), a fydd yn trefnu cyswllt rhwng un o'r Aseswyr Dynodedig a'r sawl sy'n Datgelu. Bydd yr aseswr dynodedig yn gwneud argymhellion i'r Pennaeth ar sut i fwrw ymlaen gyda'r honiad. Yna, bydd y Pennaeth yn penderfynu sut i ymdrin â'r mater ar y cyd â'r Swyddog Amddiffyn Plant a fydd yn dilyn y weithdrefn arferol wedi hynny.

4.5.4 Gweithdrefnau: Derbyn Honiad gan Blentyn

Dylai aelod o staff sy'n derbyn honiad am aelod arall o staff gan blentyn ddilyn y canllawiau yn Atodiad 5.2.1 ar gyfer ymdrin â datgeliad.

Dylid adrodd am yr honiad ar unwaith i'r Pennaeth, oni bai mai'r Pennaeth yw'r person y gwneir yr honiad yn ei erbyn, ac felly dylid adrodd yn uniongyrchol i'r Llywodraethwr dynodedig.

Unwaith y gwneir honiad, ynghyd ag ymgynghori gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol a/neu'r Heddlu, dylai'r Pennaeth (neu'r person dynodedig os gwneir yr Honiad yn erbyn y Pennaeth):

- i) Gael manylion ysgrifenedig yr honiad, wedi'u llofnodi a'u dyddio gan y person a dderbyniodd yr honiad. (Nid y myfyriwr a wnaeth a/neu oedd testun yr honiad). Dylai'r Pennaeth (neu'r person dynodedig) gydlofnodi a dyddio'r manylion ysgrifenedig.
- ii) Cofnodi gwybodaeth ynghylch amseroedd, dyddiadau, lleoliadau ac enwau tystion posib.

4.5.5 Gweithdrefn Gychwynnol i'w Dilyn gan y Pennaeth (neu'r person dynodedig) o Honiad o Gam-drin / Ymosodiad yn cael ei wneud yn erbyn unrhyw Aelod o Staff y Coleg

1. Pan fydd aelod o staff yn dod yn ymwybodol o honiad a wneir gan fyfyrwr eu bod wedi'u cam-drin / bod ymosodiad wedi'i wneud gan aelod o staff, yna rhaid adrodd am y mater i'r Pennaeth ar unwaith.
2. Cyn gynted â bod y Pennaeth wedi derbyn yr honiad hwn, **rhaid** iddo ffonio'r Prif Swyddog o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol sydd â chyfrifoldeb am Ddiogelu (01792 637522) er mwyn trafod yr honiad. Ni ellir cychwyn unrhyw ymchwiliad mewnol hyd nes bod y mater wedi'i drafod gyda'r Prif Swyddog.

Nid yw'n berthnasol os ystyrir bod yr honiad yn un o gyswllt corfforol amhriodol lefel isel (neu unrhyw ffurf arall ar gam-drin lefel isel) y gellid ei ddatrys drwy ymchwiliad mewnol, ym marn y Coleg. Unwaith y gwneir yr honiad, rhaid i'r mater gael ei adrodd i'r unigolyn a enwir uchod.

3. Diben y Drafodaeth Strategaeth hon yw penderfynu a yw'r honiad o natur mor ddifrifol y bydd angen cynnal Cyfarfod Strategaeth Uwch, neu benderfynu nad yw'r honiad yn bodloni'r trothwy ar gyfer cyfarfod o'r fath ac, felly, gellir ei basio'n ôl i'r Coleg i'w ymchwilio a'i gwblhau fel mater mewnol.
4. Mae'r meini prawf a fydd yn penderfynu a yw'r trothwy hwnnw wedi'i fodloni fel a ganlyn:
 1. bod achos i amau bod plentyn yn dioddef neu'n debygol o ddioddef niwed sylweddol **a/neu**
 2. bod trosedd wedi'i chyflawni yn erbyn plentyn **a/neu**
 3. bod y gweithiwr unigol wedi ymddwyn tuag at blentyn mewn modd sy'n arwydd ei fod ef/ei bod hi yn anaddas i weithio gyda phlant.
4. Yn ogystal â'r uchod, ystyriaeth bellach fydd a yw'r Heddlu wedi derbyn neu'n debygol o dderbyn cwyn ynghylch yr honiad.
5. Os yw un neu fwy o'r meini prawf hyn wedi'u bodloni, yna mae'n debygol iawn y cynhelir Cyfarfod Strategaeth Uwch. Fodd bynnag, mae pob sefyllfa yn wahanol ac ystyrir yr holl amgylchiadau cyn gwneud penderfyniad terfynol ynghylch cynnal cyfarfod.
6. Pan elwir y cyfarfod, fe'i cynhelir o fewn 2 ddiwrnod gwaith o'r drafodaeth a chewch hyd i fanylion am gyfansoddiad, diben a deilliant y cyfarfod ym Mharagraff 4.3.6.2 Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008 (tudalennau 309 i 313).
7. Yn gryno, caiff y cyfarfod ei gadeirio gan y Prif Swyddog o'r Gwasanaethau Cymdeithasol a bydd y sawl sy'n bresennol fel arfer yn cynnwys y Pennaeth, yr Heddlu, y Gwasanaeth Iechyd (ac o bosib cynrychiolydd AD y Coleg). Caiff y cyfarfod ei gofnodi a'i drin yn gyfrinachol.
8. Bydd y cyfarfod yn trafod yr honiad ac yn cytuno ar y camau nesaf yng nghyswllt unrhyw ymchwiliad a sut i ymdrin â'r aelod o staff yn ystod y cyfnod ymchwilio hwnnw.
9. Os credir bod hynny'n briodol, mae'n debygol y cynhelir cyfarfod(ydd) dilynol er mwyn cwblhau'r broses yn iawn.

4.5.5 Ymholiadau ac Ymchwiliadau

Ni ddylid drysu ymholiadau amddiffyn plant gan y Gwasanaethau Cymdeithasol neu'r Heddlu gydag ymholiadau disgyblu mewnol gan y Coleg. (Fyddai ond yn cychwyn yn dilyn gweithdrefn 4.6.4). Mae'n bosib y gall y Coleg ddefnyddio canlyniad ymholiadau asiantaeth allanol fel rhan o'i weithdrefnau ei hun.

Bydd y Coleg yn dal ei ymholiadau mewnol ei hun heb benderfyniad tra bod ymchwiliadau ffurfiol yr Heddlu neu'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn bwrw ymlaen; gallai gwneud fel arall fod yn niweidiol i'r ymchwiliad. Bydd unrhyw ymholiadau mewnol yn cydymffurfio â'r gweithdrefnau disgyblu staff presennol.

Os oes ymchwiliad gan asiantaeth allanol, er enghraifft yr Heddlu, fel arfer, dylai'r Pennaeth (neu berson dynodedig) fod ynghlwm a chyfrannu at y trafodaethau strategaeth rhyng-asiantaethol. Y Pennaeth (neu'r person dynodedig) sydd yn gyfrifol am sicrhau bod y Coleg yn rhoi pob cymorth gydag ymholiadau'r asiantaeth. Bydd ef/hi yn sicrhau y cynhelir cyfrinachedd priodol yng nghyswllt yr ymholiadau, er lles yr aelod o staff y gwneir yr honiad yn ei erbyn. Bydd y Pennaeth (neu'r person dynodedig) yn cynghori'r aelod o staff y dylai ef/hi ymgynghori gyda chynrychiolydd, er enghraifft, undeb lafur.

Yn amodol ar wrthwynebiadau gan yr Heddlu neu asiantaeth ymchwilio arall, bydd y Pennaeth (neu'r person dynodedig) yn:

- i) Rhoi gwybod i'r plentyn/plant/rhiant/gofalwr sy'n gwneud yr honiad bod yr ymchwiliad yn digwydd a beth fydd y broses debygol yn golygu
- ii) Sicrhau wrth rieni/gofalwyr y plentyn sy'n gwneud yr honiad bod yr ymchwiliad yn digwydd a beth fydd y broses debygol yn golygu
- iii) Rhoi gwybod i'r aelod o staff y gwnaed yr honiad yn ei erbyn bod yr ymchwiliad yn digwydd a beth fydd y broses debygol yn golygu
- iv) Rhoi gwybod i Gadeirydd y Llywodraethwyr a/neu'r Llywodraethwr dynodedig am yr honiad a'r ymchwiliad

Bydd y Pennaeth (neu'r person dynodedig) yn cadw cofnod ysgrifenedig o'r camau sydd wedi'u cymryd yng nghyswllt yr honiad.

Gall sylw yn y wasg yn ystod ymchwiliad i honiad ychwanegu at y problemau i'r aelod o staff a gall hyd yn oed lyffetheirio ymchwiliad. Bydd y Coleg yn rheoli'n ofalus ac yn briodol yr holl gysylltiadau cyfryngau. Yn anffodus, yn aml iawn mae'r cyfryngau yn dod i wybod am honiadau drwy rieni neu fyfyrwyr. Bydd unrhyw friffio i staff a llywodraethwyr yn pwysleisio'r angen i osgoi sylw yn y wasg. Mae gan staff warchodaeth drwy Ddeddf Hawliau Dynol 2000 i warchod "preifatrwydd". Bydd cynghori'r aelod o staff am unrhyw arwyddion cynnar o ddiddordeb gan y cyfryngau a/neu sylw yn y wasg yn hanfodol.

Deilliannau Posib o Gyfarfod Strategaeth

Mae pedwar deilliant posib o gyfarfod strategaeth. Os caiff y mater ei gyfeirio at yr Heddlu neu'r Gwasanaethau Cymdeithasol bydd y Coleg yn cael ei arwain gan yr asiantaethau hyn ar sut i ymdrin â'r mater. Mae'n debygol y bydd hyn yn arwain at ymchwiliad allanol. Gwneir penderfyniadau ar atal yr aelod o staff a/neu gychwyn y weithdrefn ddisgyblu gan ymgynghori â'r sefydliadau hyn. Gall y cyfarfod strategaeth benderfynu y gall y Coleg ymchwilio i'r mater ac adrodd yn ôl ar y deilliant i'r grŵp strategaeth. Os mai dyma'r achos, caiff y mater ei drin gan ddefnyddio gweithdrefn Ddisgyblu'r Coleg. Y pedwerydd deilliant yw y gall y cyfarfod strategaeth benderfynu nad oes achos i'w ymchwilio.

4.5.6 Atal Staff

Cyfeiriwch at adran 12 a 13 y weithdrefn ddisgyblu am ganllawiau ar atal staff.

Dylid rhoi ystyriaeth i'r dewisiadau eraill: e.e. amser i ffwrdd â thâl; cytuno i beidio â dod i'r gwaith; newid neu dynnu'n ôl o ddyletswyddau penodol.

Dylid rhoi gwybod i rieni/gofalwyr y plentyn sy'n gwneud yr honiad bod yr aelod o staff wedi'i atal. Dylid gofyn iddynt drin y wybodaeth yn gyfrinachol. Dylid ystyried rhoi gwybod i'r myfyriwr sy'n gwneud yr honiad bod yr aelod o staff wedi'i atal.

4.5.7 Y Weithdrefn Ddisgyblu

Dylid cynnal yr ymchwiliad disgyblu yn unol â'r weithdrefn disgyblu staff presennol.

Dylid rhoi gwybod i'r myfyriwr sy'n gwneud yr honiad a/neu eu rhieni am ddeilliant yr ymchwiliad a'r gweithdrefnau. Dylai hyn ddigwydd cyn i'r aelod o staff ddychwelyd i'r coleg (os yw wedi'i atal).

Dylai'r Pennaeth (neu'r person dynodedig) ystyried pa wybodaeth ddylai fod ar gael i boblogaeth gyffredinol y Coleg.

4.5.8 Honiadau Di-sail

Yn amlwg, gall honiadau ffug fod yn arwydd o broblemau cam-drin rhywle arall. Dylid cadw cofnod ac ystyried cyfeirio at y Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn i asiantaethau eraill weithredu ar y wybodaeth.

Mewn ymgynghoriad â'r aelod o staff dynodedig uwch a/neu'r Llywodraethwr dynodedig, bydd y Pennaeth yn:

- i) rhoi gwybod i'r aelod o staff y gwnaed yr honiad yn ei erbyn ar lafar ac yn ysgrifenedig na chymerir unrhyw gamau disgyblu pellach na chamau amddiffyn plant. Dylid ystyried cynnig cwnsela/cefnogaeth.
- ii) rhoi gwybod i rieni/gofalwyr y dioddefwr honedig bod yr honiad wedi'i wneud ac am y deilliant.
- iii) os gwnaed yr honiad gan blentyn gwahanol i'r dioddefwr honedig, dylid ystyried rhoi gwybod i rieni/gofalwyr y plentyn hwnnw.
- iv) paratoi adroddiad yn amlinellu'r honiad ac yn rhoi rhesymau am y casgliad nad oedd sail iddo ac yn cadarnhau bod y camau uchod wedi'u cymryd

4.5.9 Cofnodion

Mae hi'n bwysig bod dogfennau sy'n ymwneud ag ymchwiliad yn cael eu cadw mewn lle diogel, ynghyd â chofnod ysgrifenedig o'r deilliant ac, os cymerir camau disgyblu, dylid cadw manylion ar ffeil gyfrinachol a phersonol yr aelod o staff.

Os caiff aelod o staff ei ddiswyddo neu os yw'n ymddiswyddo cyn i'r broses ddisgyblu ddod i ben, dylid rhoi gwybod iddo ef/iddi hi am ddyletswydd statudol y Coleg i roi gwybod i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg dan y gweithdrefnau "Rhestr 99".

4.5.10 Monitro Effeithiolrwydd

Os oes honiad wedi'i wneud yn erbyn aelod o staff, dylai'r Llywodraethwr dynodedig, ynghyd â'r aelod o staff uwch gyda chyfrifoldeb arweiniol, wrth gwblhau'r ymchwiliad ac unrhyw weithdrefnau disgyblu, ystyried a oes unrhyw faterion yn codi a allai arwain at wella gweithdrefnau a/neu bolisiau y dylid tynnu sylw Bwrdd Diogelu Bae'r Gorllewin atynt. Dylid ystyried hefyd beth yw anghenion hyfforddi staff.

5. Dogfennau Perthnasol

Dylid darllen y Polisi hwn ar y cyd â:

Polisi Disgyblu Myfyrwyr CGA
 Polisi Cyffuriau ac Alcohol Myfyrwyr CGA
 Polisi Gwrth-fwlio Myfyrwyr CGA
 Polisi Cyn-droseddwyr Myfyrwyr CGA
 Protocol Hunan-niweidio Myfyrwyr CGA
 Polisi Atal CGA
 Polisi Chwythu'r Chwiban Staff
 Gweithdrefnau Disgyblu Staff

6. Y Gymraeg

Mae Coleg Gŵyr Abertawe yn ymrwymedig i hyrwyddo'r iaith Gymraeg, yn unol â Safonau'r Iaith Gymraeg a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Atodiad 1

AMDDIFFYN PLANT (YN CYNNWYS MYFYRWYR 14-16 AC OEDOLION BREGUS)


Dyddiad Heddiw:	
Enw'r person sy'n adrodd am y datgeliad:	
Swydd y person sy'n adrodd am y datgeliad	
Enw'r Myfyriwr	
Dyddiad Geni'r Myfyriwr	
Cwrs:	
Tiwtor:	

Enw'r Cam driniwr Honedig:	
Manylion y cam-drin honedig: (yn cynnwys dyddiadau, amser a lleoliad y cam-drin honedig)	
Manylion pobl ifanc eraill neu oedolion bregus a allai fod wedi cael cyswllt gyda'r cam driniwr honedig: (Enwau a Dyddiadau Geni)	
Manylion ac oed pwy arall sy'n byw yn y cartref	

Camau a gymerwyd:	
Llofnod: (Person Dynodedig)	
Llofnod: (Person sy'n Adrodd)	

ATODIAD 2

Canllawiau i Staff sy'n ymdrin â Honiad a wneir gan Fyfyriwr



ATODIAD 2 – COVID-19

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch diogelwch plentyn, person ifanc neu oedolyn bregus yn ystod cyfnod o gyfyngiadau symud, cysylltwch â swyddog diogelu dynodedig trwy ddefnyddio'r manylion isod. Mae'n hanfodol ichi godi unrhyw bryder yn syth gydag un o'r Swyddogion Diogelu.

Swyddogion Diogelu (ar gyfer myfyrwyr amser llawn, rhan-amser a phrentisiaid, oriau gweithio: dydd Llun i ddydd Iau 8.30-5.00pm a 8.30-4.30 bob dydd Gwener)

Ian Billington	<u>07880 089048</u>
Naima Khanom	<u>07768 035787</u>
Vicki Wannell	<u>07393 789238</u>
Ryan McCarley	<u>07917 352153</u>
Ceri Low	<u>07800 614030</u>
Tamsyn Oates	<u>07867 135815</u>

Swyddog Diogelu (i brentisiaid yn unig)

Adele Bubear 07798 822867

Prif Swyddog Diogelu (gellir cysylltu â hi y tu allan i oriau gwaith, lle bo angen)

Anne Pitman 01792 284169

Dwi ddim yn gallu cysylltu â'r Swyddog Diogelu Dynodedig

Os ni fyddwch yn gallu cysylltu â Swyddog Diogelwch Dynodedig, a'ch bod yn credu bod y person ifanc neu'r oedolyn bregus mewn perygl o niweidio'i hun neu fod ei fywyd o dan risg, ffoniwch y gwasanaethau brys – 999.

Os nad yw'r unigolyn mewn perygl uniongyrchol, ond mae gennych bryderon amdano/amdani, ebostiwch anne.pitman@gcs.ac.uk gyda chymaint o fanylion â phosib a gadewch eich rhif ffôn er mwyn iddi hi allu cysylltu â chi i drafod eich pryderon ac i'ch atgyfeirio i'r lle cywir.

Yn ogystal, gallwch gysylltu â Swyddog Diogelwch Ysgolion Abertawe (os yw'r plentyn dan sylw yn fyfyrwr 14-16 yn y Coleg), Lisa Collins:

Lisa.Collins@swansea.gov.uk

07827 822700

Cymorth i fyfyrwyr yn ystod y Coronafeirws

Mae Swyddogion Cymorth i Fyfyrwyr yn defnyddio dulliau gweithio o bell ac wyneb yn wyneb i ddarparu gwasanaeth i ddysgwyr. Gall unrhyw fyfyrwr sy'n fregus / yn chwilio am gymorth wneud apwyntiad.

Nodyn i Swyddogion Diogelu

Oni bai bod yr atgyfeiriad a gyflwynir ichi yn un difrifol (sydd angen ymateb iddo ar frys), lle mae'r unigolyn mewn perygl uniongyrchol o niweidio'i fywyd, peidiwch â chanu'r gloch. Yn hytrach, ebostiwch yr adran Gwasanaethau Cymdeithasol perthnasol. Gofynnir ichi wneud hyn oherwydd ein bod eisoes yn derbyn nifer fawr o alwadau ffôn oherwydd y Coroaifeirws. Os yw'r mater yn un brys, ffoniwch am gyngor.

Arferion gorau o ran Gweithio o Bell

Mae'n bwysig i staff sy'n darparu gwasanaethau o bell ddilyn y Canllawiau Arferion Gorau ar gyfer Darparu Cymorth Addysgu a Dysgu o Bell, sy'n cydymffurfio â chyngor Llywodraeth Cymru ar gyfer 'Cadw'n Ddiogel, Dal ati i Ddysgu', canllawiau @EducationGovUK ar gyfer diogelu (tra bydd ysgolion ar gau), canllawiau Natspec i fyfyrwyr sydd ag Anghenion Addysgol Arbennig a Chanllaw Cyngor Abertawe ar gyfer Ysgolion.